

# Tyfu Canolbarth Cymru mis Mawrth 2025

**Croeso i rifyn mis Mawrth o'r Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru!**

Y mis hwn, rydym yn falch iawn o rannu bod llywodraethau'r DU a Chymru wedi cadarnhau rhyddhau £11.8 miliwn o gyllid ar gyfer Canolbarth Cymru - gan nodi carreg filltir bwysig i'r Fargen Twf. Roedd y cyhoeddiad yn cyd-daro ag ymweliad gweinidogol â'r prosiect cyntaf a gefnogir gan y Fargen: datblygiad Llynnoedd Cwm Elan, sy'n anelu at ddod yn enghraifft flaenllaw o dwristiaeth gynaliadwy.

Rydym hefyd yn taflu goleuni ar bum prosiect dichonoldeb llwyddiannus sy'n archwilio sut y gall cymunedau gwledig a'r sector amaethyddol chwarae rhan flaenllaw mewn datgarboneiddio trwy systemau ynni clyfar ac arloesi.

Hefyd, mae paratoadau ar y gweill ar gyfer lansiad Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru sydd ar ddod - wedi'i theilwra i gefnogi busnesau lleol i ehangu a gwella safleoedd.

Mewn mannau eraill, rydym yn gwahodd barn ar ddyfodol teithio yn y rhanbarth drwy ymgynghoriad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - mae gennych tan 04 Ebrill i rannu eich barn

Rydym hefyd yn cefnogi twf gweithlu cynhwysol gyda digwyddiadau sy'n annog cyflogwyr i ystyried potensial pobl medrus sy'n gadael carchar.

Os ydych chi'n edrych i wneud gwahaniaeth, rydym hefyd yn tynnu sylw at ddwy rôl newydd gyffrous i gefnogi cyflawni'r Fargen Twf.

Fel bob amser, mae eich ymgysylltiad yn ein helpu i lunio Canolbarth Cymru fwy ffyniannus, cynaliadwy. Gadewch i ni barhau i adeiladu gyda'n gilydd.

Yn helpu i dyfu cyfleoedd yn y canolbarth,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

## Datgloi £11.8m yn rhagor ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru wrth i'r prosiect cyntaf ddwyn siâp



*1 - Goedwig Law Geltaidd*

Mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi cadarnhau bod £11.8m o gyllid wedi'i ryddhau i Ganolbarth Cymru fel rhan o becyn buddsoddi i roi hwb i economi'r rhanbarth.

Daeth y cyhoeddiad wrth i Weinidogion fynd ar daith yr wythnos hon i weld y prosiect cyntaf i gael cefnogaeth Bargen Twf Canolbarth Cymru, sy'n cael ei chefnogi gan y ddwy lywodraeth er mwyn denu mwy o fuddsoddi oddi wrth y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Roedd yr ymweliad â datblygiad Llynnoedd Cwm Elan - sy'n ceisio gosod meincnod newydd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy - yn gam mawr ymlaen i'r Fargen Dwf wrth i brosiectau ddechrau mynd yn eu blaen o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni.

Bydd y pecyn gwaith cyntaf yn hybu profiad ymwelwyr, yn cynyddu refeniw yn lleol ac yn cynnal harddwch naturiol a bioamrywiaeth Cwm Elan. Bydd y pwyslais ar ddau faes allweddol:

- Ehangu'r Goedwig Law Geltaidd - Cysylltu ac adfer 117 hectar o goetiroedd tameidiog fel rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru.

- Dylunio'r Ganolfan Ymwelwyr - Rhoi cychwyn ar y dyluniadau ar gyfer yr ailddatblygu er mwyn hybu profiad ymwelwyr ac integreiddio addysg amgylcheddol ac arferion cynaliadwy.

Rhagwelir y bydd y cam cyntaf ar ei ben ei hun yn dod â budd economaidd blynyddol o £4m ac y bydd y prosiect yn cyfrannu £17m i'r economi ranbarthol erbyn 2040.

Darllenwch ein herthygl lawn ar ein tudalen Newyddion.



*2 - Llynnoedd Cwm Elan (Ch-Dd) Steve Lesbirel, Cadeirydd Grŵp Cynghori Economaidd, Bargen Dwf Canolbarth Cymru; y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion; y Fonesig Nia Griffith DBE AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru; y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys; Rebecca Evans, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Ynni a Chynllunio; Martin Driscoll, Cyfarwyddwr Pobl, Dŵr Cymru; Carwyn Jones-Evans, Uwch Berchennog Cyfrifol y Portffolio, Tyfu Canolbarth Cymru; Peter Perry, Prif Weithredwr, Dŵr Cymru; Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion; Emma Palmer, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys; Diane Reynolds, Cyfarwyddwr yr Economi a Chymunedau, Cyngor Sir Powys; Pennaeth Strategaeth Atyniadau Ymwelwyr, Dŵr Cymru.*

## Ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar eu hastudiaethau dichonoldeb i optimeiddio gridiau gwledig drwy gymunedau amaethyddol

Rydym yn falch o gyhoeddi'r pum ymgeisydd sydd wedi llwyddo i gael cyllid i gynnal astudiaethau dichonoldeb i ddatgarboneiddio amaethyddiaeth.

Bydd y prosiectau'n archwilio atebion arloesol sy'n defnyddio dull systemau cyfan o ddeall rôl amaethyddiaeth a diwydiannau'r tir o ran gwneud datgarboneiddio'n bosibl ar draws cymunedau gwledig.

Dyma'r ymgeiswyr llwyddiannus ynghyd â chrynodeb o ffocws eu hastudiaethau:

1. **Asiantaeth Ynni Hafren Gwy -** Helpu busnesau i leihau'r galw am ynni: Gan ganolbwyntio ar weithredu Systemau Ynni Lleol Clyfar mewn parciau diwydiannol a busnes, nod y prosiect hwn yw lleihau'r galw am ynni ar y grid drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a storio ynni mewn batris. Wedi'i leoli yn Llandysilio ger Y Trallwng.

2. **Y Ganolfan Cydraddoldeb Ynni - HARVEST** (Holistic Agriculture and Rural Virtual Energy System Transition): Gan ddefnyddio model datganoledig sy'n eiddo i'r gymuned, dyma orsaf bŵer rithwir a fyddai'n cysylltu cartrefi, busnesau a systemau ynni adnewyddadwy ar ffermydd—fel paneli solar a batris. Wedi'i leoli yn Llanidloes
3. **Challoch Energy -** Ynni gwledig i bentrefi yng Nghanolbarth Cymru*:* Gwerthuso'r potensial ar gyfer datblygu system ynni integredig leol yn y gymuned a fydd yn datgarboneiddio'r gymuned ac yn cynnig manteision ariannol drwy fwy o ynni fforddiadwy.
4. **Lafan a Choleg Sir Gâr -** Defnydd cynaliadwy o slyri da byw ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy, optimeiddio grid ac allforio maethynnau gweddilliol i ganolfan driniaeth ganolog: Ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio slyri da byw (cymysgedd o dail a dŵr o ffermydd) i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bydd hyn yn cynnwys y nod ychwanegol o adennill maethynnau defnyddiol o'r slyri a dod o hyd i ffyrdd o wella sut mae'r grid ynni'n gweithio, gan ei wneud yn fwy effeithlon a chynaliadwy.
5. **Water to Water** - Llaeth Sero Net Cyntaf Cymru: Gan weithio mewn partneriaeth â First Milk, nod y prosiect yw dangos potensial Systemau Ynni Lleol Clyfar ar ffermydd llaeth, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i fod yn hunangynhaliol o ran ynni gan sicrhau ar yr un pryd sefydlogrwydd ariannol hirdymor ac ysgogi'r potensial i gyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn cymunedau gwledig.

Gwyliwch y clipiau isod ar ddefnydd cynaliadwy o slyri da byw ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy a phrosiect Water to Water. Cadwch lygad ar ein sianel YouTube am fideos ar y prosiectau eraill yn yr wythnosau nesaf.

I gael rhagor o fanylion am Gronfa Her WSRID a'r prosiectau llwyddiannus, ewch i https://www.tyfucanolbarth.cymru/WSRID-CY..




a gweld os gallwn ni wneud mantais o fe, i wneud egni a ynni mas o fe i'r diwydiant,
ac hefyd i'r bobl sy'n byw yn yr ardal.




yn ddefnyddwyr annibynnol Ynni Sero Net ar gyfer eu gwres, eu cludiant, eu tanwydd a'u trydan.

## Cyflogi Ymadawyr Carchar: Datgloi Potensial yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru

Gwahoddir busnesau ledled Canolbarth a Gogledd Cymru i archwilio gweithlu sydd heb ei gyffwrdd mewn dau ddigwyddiad sydd ar ddod gyda'r nod o bontio'r bwlch rhwng cyflogwyr a'r rhai medrus sy'n gadael carchar.

Trefnir y digwyddiadau gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRhCC), Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (PSRhGC), a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), bydd y digwyddiadau'n herio canfyddiadau ac yn rhoi cipolwg gwerthfawr i gyflogwyr ar gyflogi unigolion sydd â phrofiadau byw o'r system gyfiawnder.

Bydd y digwyddiad yn y Canolbarthyn cael eu cynnal yn:

- Eglwys Hope, Y Drenewydd - Ebrill 9, 2025 | 9:00 AM - 12:00 PM **Cofrestrwch yma:** https://www.eventbrite.com/e/1277877077739?aff=oddtdtcreator

Mae busnesau ledled Cymru yn wynebu prinder sgiliau, ac eto mae miloedd o unigolion talentog yn cael eu hanwybyddu. Bydd y digwyddiadau hyn yn dangos sut y gall busnesau elwa o gyflogi pobl medrus sy'n gadael carchar gan chwalu camsyniadau.

Darllenwch fwy ar ein tudalen newyddion.




## Cyfle i ddweud eich dweud am ddyfodol teithio yng Nghanolbarth Cymru!

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn ein bywyd pob dydd, gan lunio sut yr ydym yn cael mynediad i waith, addysg, gofal iechyd a chyfleoedd hamdden. I gydnabod pwysigrwydd y maes, mae [Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru] yn datblygu **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol** i nodi sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac yn trawsnewid yn y rhanbarth.

Mae fersiwn drafft y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol i greu system drafnidiaeth sy'n gynaliadwy, yn garbon isel ac yn effeithlon. Bydd yn canolbwyntio ar wella cysylltedd yn y Canolbarth a thu hwnt, gan fynd i'r afael â heriau sy'n unigryw i'n tirwedd wledig.

**Mae prif amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys:**

- Cynyddu mynediad i ddulliau teithio cynaliadwy fel beicio, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i hybu twf o ran yr economi a thwristiaeth.
- Cefnogi ymdrechion i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys, ac mae'n cael ei arwain gan gynllun Llywodraeth Cymru sef Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021. Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn gam hollbwysig yn y broses, gan roi cyfle i chi ddylanwadu ar y cynllun terfynol.

**Sut gallwch chi gymryd rhan?**

- Mae'r ymgynghoriad ar agor **nawr hyd 4ydd o Ebrill 2025,** ac mae'n hawdd cymryd rhan:
- Ar-lein: Ewch i'n wefan www.bit.ly/TrafnidiaethCC i ddarllen y Cynllun a llenwi'r holiadur ar-lein: https://bit.ly/CTRHCC

Mae eich llais yn hanfodol i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau. Manteisiwch ar y cyfle hwn i leisio eich barn!




## Ydych chi'n edrych i ehangu eich busnes yng Nghanolbarth Cymru?

Yr haf a'r hydref diwethaf, fe wnaethom lansio arolwg "Cefnogi Twf" yn esbonio bod ystyriaeth yn cael ei roi i sefydlu cronfa grant leol i gefnogi busnesau a sefydliadau lleol gyda'u cynlluniau twf yn y dyfodol drwy ddarparu cymorth ariannol i wireddu cynlluniau gwella adeiladau.

Diolch i'ch adborth gwerthfawr, rydym bellach wedi llunio'r gronfa hon i'w theilwra i ddiwallu anghenion mynegedig busnesau ledled y rhanbarth. Mae eich mewnbwn wedi ein helpu i greu cronfa yr ydym yn credu ei bod yn addas i'r diben i gefnogi twf busnes cynaliadwy a datgloi cyfleoedd newydd yng Nghanolbarth Cymru. Felly,

Byddwch yn barod ar gyfer Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru, sy'n cael ei lansio ar 01 Mai!

Mae'r gronfa gyfalaf newydd hon wedi'i chynllunio i gefnogi busnesau gyda buddsoddiad hanfodol ar gyfer twf - p'un a yw'n ehangu i adeilad newydd neu ehangu gweithrediadau mewn lleoliad presennol.

E-bostiwch ni os hoffech fynychu'r digwyddiad lansio, tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru




## Dau gyfle gyrfa cyffrous yn y Fargen Twf Canolbarth Cymru!

Efallai eich fod wedi gweld mewn diweddariadau diweddar, mae Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda phrosiectau allweddol yn derbyn cymeradwyaeth.

Wrth i ni nodi'r garreg filltir bwysig hon, rydym bellach yn chwilio am unigolion profiadol ac ymroddedig i helpu i'n llywio drwy'r cyfnod cyflawni.

Mae'r rolau allweddol hyn yn cynnig cyfle enfawr i wneud gwahaniaeth yn y rhanbarth a gadael effaith barhaol trwy weithredu cynlluniau gwych.

📈 Cyfarwyddwr Portffolio

Ydych chi'n arweinydd profiadol sydd â hanes o reoli swyddfeydd portffolio/rhaglenni mawr? Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n canolbwyntio ar gyflenwi a all reoli portffolio cyfalaf cymhleth ac amlweddog mewn amgylchedd deinamig, ond gwerth chweil. Bydd y rôl hon yn ymuno â ni ar adeg hollbwysig wrth i ni symud o ddatblygu i'r gwaith cyflawni er mwyn sicrhau bod ein prosiectau uchelgeisiol yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus.

https://careers.ceredigion.gov.uk/cy/jobs/req105887cym/

📊 Cynllunydd Portffolio

Oes gennych chi ddawn cynllunio a chydlynu manwl? Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol sy'n canolbwyntio ar fanylion i gefnogi ein prosesau rheoli portffolio a'n helpu i gyflawni ein hamcanion cyflawni ar draws y portffolio. Bydd y rôl hon yn hanfodol er mwyn cadw'r portffolio ar y trywydd iawn a rheoli perfformiad.

https://careers.ceredigion.gov.uk/cy/jobs/req105886cym/

Ymunwch â ni i lunio dyfodol Canolbarth Cymru! 🌟

Dyddiad cau: **27/03/2025**




Tyfu Canolbarth Cymru Growing Mid Wales





Tyfu Canolbarth Cymru Growing Mid Wales

## Careers in 360: Trawsnewid Archwilio Gyrfa yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn falch o fod yn bartner arloesol yn Careers in 360, llwyfan arloesol a ddyluniwyd i chwyldroi archwilio gyrfa. Wedi'i ddatblygu ar y cyd ag One Step North a sefydliadau sector cyhoeddus allweddol, gan gynnwys prifysgolion, colegau, ac ysgolion ledled Cymru, mae'r adnodd blaengar hwn yn cynnig profiadau rhithwir 360 gradd sy'n dod â'r byd gwaith yn fyw.

Mwy o wybodaeth ar wefan [Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.]




## Newyddion eraill


Mae rhaglen flaenllaw ArloesiAber, sef y Solutions Catalyst a gefnogir gan [UKRI - BBSRC] i yrru arloesedd wedi dychwelyd am bedwaredd rownd, gan gynnig pecyn o gefnogaeth, sy'n cynnwys ymgynghoriaeth academaidd a mynediad i gyfleusterau a chymorth technegol yn ArloesiAber, ar gyfer prosiectau prawf cysyniad biowyddoniaeth.

Mae gan gwmnïau yn y DU gyfle i ennill tocyn gwerth hyd at £30,000 ac ymuno â'r charfan 2025.

**Sut i wneud gais:**

Dilynwch y ddolen yma: https://aberinnovation.com/cy/hyb-datblygu/solutions-catalyst i lawrlwytho'r dogfennau cystadleuaeth sydd ar gael, gan gynnwys nodiadau canllaw.

Dylid cyflwyno ceisiadau wedi'u cwblhau i catalyst@aberinnovation.comY dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5yp ar 2 Ebrill 2025.



## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales